# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0949(FM) a gyhoeddwyd gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, ar 22 Mai 2008

**At Paul Davies:**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cwestiwn i Brif Weinidog Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Ebrill 2008, pan ofynnoch a oes amserlen benodol i'r Undeb Ewropeaidd rybuddio Llywodraeth Cynulliad Cymru fod rheoliadau'n mynd i gael eu gweithredu. Gwnaethoch ofyn eich cwestiwn yng nghyd-destun cwynion yr oeddech wedi'u derbyn oddi wrth ffermwyr sydd wedi profi anhawster cael eu taliadau Tir Gofal, a'ch tyb bod hyn wedi digwydd gan nad oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi ymbaratoi'n ddigonol ar gyfer cyflwyno newidiadau rheoliadol mewn modd amserol.

Yn gyffredinol, nid yw'r Undeb Ewropeaidd yn pennu amserlen ymlaen llaw ar gyfer rhoi gwybod i Lywodraeth y Cynulliad am gyflwyno rheoliadau newydd. Gan mwyaf, mae rheoliadau'n dod i rym trwy drafodaeth yn y pwyllgorau rheoli Ewropeaidd perthnasol sy'n cael eu mynychu gan yr holl Aelod-wladwriaethau, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd rhan yn y broses honno. Gall cyfnodau'r broses, gan gynnwys cyfnodau trafod y rheoliadau drafft, amrywio'n fawr, gan ddibynnu ar y mesurau penodol dan sylw.

Pan ysgrifennais atoch chi ar 11 Mawrth 2008, dywedais fod Erthygl 24 o Reoliad y Comisiwn (EC) 796/2004 yn rhoi esboniad o'r gofyn sydd ar Lywodraeth y Cynulliad i gynnal archwiliadau gweinyddol ar geisiadau PAC a chynlluniau Datblygu Gwledig, gan gynnwys cymharu ceisiadau'n electronig. Gwnaed y rheoliad hwn ar 21 Ebrill 2004 ac mae'n berthnasol i geisiadau am gymorth o 1 Ionawr 2005 ymlaen. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn datblygu eu gallu i gynnal archwiliadau gweinyddol yn electronig o flwyddyn i flwyddyn. Roedd dod yn gyfrifol am weinyddu Tir Gofal, oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru ym mis Hydref 2006 yn rhan o'r rhaglen hon i fodloni'r gofyn i wirio gwybodaeth yn effeithlon.

Gwariodd y Cynllun Tir Gofal ei gyllid yn llawn erbyn diwedd mis Mawrth 2008. £27.98 miliwn oedd cyfanswm y taliadau a wnaed rhwng 1 Ebrill 2007 a 28 Mawrth 2008 i'r rhai yr oedd eu ceisiadau wedi'u cytuno.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0942(FM) a gyhoeddwyd gan Jocelyn Davies, y Dirprwy Weinidog dros Dai, Mehefin 2008

**At Peter Black:**

Ynglŷn â'r drafodaeth yn ystod Cyfarfod Llawn 29 Ebrill 08, cynigiodd Prif Weinidog Cymru ddarparu ateb manwl, yn ysgrifenedig, i'r cwestiwn atodol i'ch Cwestiwn Llafar ynglŷn â chyllid Cefnogi Pobl.

Ni fu'n bosibl dyfarnu cynnydd chwyddiannol i bobl sy'n cael Grant Cefnogi Pobl neu Grant Refeniw Cefnogi Pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

Gorymrwymwyd y gyllideb Cefnogi Pobl yn ystod 2007/08 o ganlyniad i'r cynnydd chwyddiannol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn honno a'r ymrwymiad i gyllido costau refeniw prosiectau cyfalaf sy'n ymdrin â chamddefnyddio sylweddau.

Ynglŷn â'ch sylwadau ar Ddogfen Cymru'n Un, fel Dirprwy Weinidog rwy'n gyfrifol am sicrhau bod cyllidebau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Trwy ddilyn y dull hwn, rydym yn osgoi gorymrwymo'r gyllideb eleni ac yn sicrhau y bydd gan y sefydliadau hynny sy'n cael cyllid Cefnogi Pobl ddealltwriaeth lawer well o faint o arian a ddyrennir iddynt yn ystod y blynyddoedd nesaf.